Atodiad 2

CRONFA BENSIWN RHONDDA CYNON TAF

# DATGANIAD CYDYMFFURFIO'R GRONFA BENSIWN

Diweddarwyd Mawrth 2023

## Cynnwys Tudalen


| | | | |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Rhan II/A** | **Strwythur** | **3** |
| **2.** | **Rhan II/B** | **Cynrychiolaeth** | **4** |
| **3.** | **Rhan II/C** | **Dethol Aelodau Lleyg a'u Swyddogaeth** | **5** |
| **4.** | **Rhan II/D** | **Pleidleisio** | **6** |
| **5.** | **Rhan II/E** | **Hyfforddiant, amser ar gyfer materion undeb llafur a threuliau** | **7** |
| **6.** | **Rhan II/F** | **Cyfarfodydd** | **8** |
| **7.** | **Rhan II/G** | **Mynediad** | **9** |
| **8.** | **Rhan II/H** | **Cwmpas** | **10** |
| **9.** | **Rhan II/I** | **Cyhoeddusrwydd** | **11** |

## 1. Rhan II/A Strwythur

a) Cyfrifoldeb y prif bwyllgor wedi'i sefydlu gan y cyngor penodi yw rheoli gweinyddu buddion a rheoli asedau'r gronfa yn strategol.

b) Bod cynrychiolwyr cyflogwyr CPLIL sy'n cymryd rhan, cyrff ac aelodau o'r cynllun sydd wedi'u derbyn (gan gynnwys aelodau sy'n bensiynwyr ac aelodau gohiriedig) yn aelodau o naill ai'r prif bwyllgor neu'r pwyllgor eilaidd sydd wedi'i sefydlu i ategu gwaith y prif bwyllgor.

c) Bod y strwythur, lle mae pwyllgor neu banel eilaidd wedi'i sefydlu, yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol ar draws y ddwy lefel.

d) Bod o leiaf un sedd ar y prif bwyllgor yn cael ei dyrannu ar gyfer aelod o'r pwyllgor neu'r panel eilaidd lle mae pwyllgor neu banel eilaidd wedi'i sefydlu.

| | Ddim yn cydymffurfio | Yn cydymffurfio'n rhannol | Yn cydymffurfio ar y cyfan | Yn cydymffurfio'n llawn |
|---|---|---|---|---|
| a) | | | | ✓ |
| b) | | | | ✓ |
| c) | | | | ✓ |
| ch) | | | | ✓ |

Rheswm dros beidio â chydymffurfio (Rheoliad 55(1)(c) – Rheoliadau 2014):

| |
|---|
| |

Sylwadau ar y sgoriau wedi'u dyfarnu uchod:

| |
|---|
| Mae gyda'r Bwrdd Pensiwn Lleol ddau swyddog sy'n cynrychioli'r aelodau ym mhob categori, hynny yw, gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr, a dau gynrchiolydd ar gyfer gweithwyr |

## 2. Rhan II/B Cynrychiolaeth

a) Bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael cyfle i gael eu cynrychioli yn rhan o strwythur y prif bwyllgor neu'r pwyllgor eilaidd. Mae'r rhain yn cynnwys:

i. awdurdodau cyflogi (gan gynnwys cyflogwyr sydd ddim yn cymryd rhan yn y cynllun, e.e. cyrff sydd wedi'u derbyn);
ii. aelodau'r cynllun (gan gynnwys aelodau gohiriedig a phensiynwyr);
iii. arsylwyr proffesiynol annibynnol; a
iv. a chynghorwyr arbenigol (yn ôl yr angen).

b) Bod aelodau lleyg sy'n eistedd ar brif bwyllgor neu bwyllgor eilaidd, yn cael eu trin yn gyfartal o ran mynediad at bapurau, cyfarfodydd a hyfforddiant a'u bod nhw cael cyfle llawn i gyfrannu at y broses dod i benderfyniadau, gyda hawliau pleidleisio neu hebddyn nhw.

| | Ddim yn cydymffurfio | Yn cydymffurfio'n rhannol | Yn cydymffurfio ar y cyfan | Yn cydymffurfio'n llawn |
|---|---|---|---|---|
| a) | | | | ✓ |
| b) | | | | ✓ |

Rheswm dros beidio â chydymffurfio (Rheoliad 55(1)(c) – Rheoliadau 2014):

| |
|---|
| |

Sylwadau ar y sgoriau wedi'u dyfarnu uchod:

| |
|---|
| Mae gyda'r Bwrdd Pensiwn Lleol ddau swyddog sy'n cynrychioli'r aelodau ym mhob categori, hynny yw, gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr, a dau gynrchiolydd ar gyfer gweithwyr<br>Mae'r Bwrdd yn mynychu hyfforddiant sgiliau a gwybodaeth rheolaidd a chaiff rhestr o achlysuron eu cadw. |

## 3. Rhan II/C Dethol Aelodau Lleyg a'u swyddogaeth

a) Bod aelodau'r pwyllgor neu'r panel yn gwbl effro i'r statws, y swyddogaeth a'r rhan fydd angen iddyn nhw ei chwarae ar brif bwyllgor neu ar bwyllgor eilaidd.

| | Ddim yn cydymffurfio | Yn cydymffurfio'n rhannol | Yn cydymffurfio ar y cyfan | Yn cydymffurfio'n llawn |
|---|---|---|---|---|
| a) | | | | ✓ |

Rheswm dros beidio â chydymffurfio (Rheoliad 55(1)(c) – Rheoliadau 2014):

| |
|---|
| |

Sylwadau ar y sgoriau wedi'u dyfarnu uchod:

| |
|---|
| Mae swyddogaeth pob pwyllgor yn cael ei nodi yn y Datganiad Polisi Llywodraethu.<br>Mae sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth parhaus yn cael eu darparu ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor, y Bwrdd a'r Panel, fel sydd wedi'i nodi yng nghofnod hyfforddiant y "Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau".<br>Mae cofnod hyfforddiant y "Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau" yn cael ei gadw ar wahân ar gyfer y Pwyllgor Pensiynau a'r Panel Buddsoddi a Gweinyddu Ymgynghorol, ac mae gofyniad tebyg yn cael ei gynnal mewn perthynas ag aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol. |

## 4. Rhan II/D Pleidleisio

a) Mae polisi awdurdodau gweinyddu unigol ar hawliau pleidleisio yn glir ac yn dryloyw, gan gynnwys y cyfiawnhad dros beidio ag ymestyn hawliau pleidleisio i bob corff neu grŵp sy'n cael ei gynrychioli ar brif bwyllgorau CPLlL.

| | Ddim yn cydymffurfio | Yn cydymffurfio'n rhannol | Yn cydymffurfio ar y cyfan | Yn cydymffurfio'n llawn |
|---|---|---|---|---|
| a) | | | | ✓ |

Rheswm dros beidio â chydymffurfio (Rheoliad 55(1)(c) – Rheoliadau 2014):

Sylwadau ar y sgoriau wedi'u dyfarnu uchod:

Mae hawliau pleidleisio yn cael eu hymestyn i'r Pwyllgor Cronfa Bensiwn sy'n gytbwys yn wleidyddol, ac sy'n gyfrifol am reolaeth strategol y Gronfa. Caiff yr holl swyddogaethau gweithredol eu dirprwyo i Ddirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen (ac yntau'n Swyddog Adran 151, neu yn ei absenoldeb y Dirprwy Swyddog Adran 151).

Mae gyda phob un o aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol hawliau pleidleisio cyfartal a bydd gyda'r Cadeirydd y bleidlais fwrw os fydd hi ddim yn bosibl i'r mwyafrif ddod i'r un penderfyniad.

## 5. Rhan II/E Hyfforddiant, amser ar gyfer materion undeb llafur a threuliau

a) Mewn perthynas â'r ffordd y mae'r awdurdod gweinyddu yn dod i benderfyniadau statudol a pherthynol, bod yna bolisi clir ar hyfforddi, amser ar gyfer materion undeb llafur ac ad-dalu treuliau mewn perthynas ag aelodau sy'n rhan o'r broses dod i benderfyniadau.

b) Bod y polisi yn berthnasol i bob aelod o bwyllgorau, is-bwyllgorau, paneli ymgynghorol neu unrhyw ffurf arall ar fforwm eilaidd, lle bo polisi o'r fath yn bodoli.

| | Ddim yn cydymffurfio | Yn cydymffurfio'n rhannol | Yn cydymffurfio ar y cyfan | Yn cydymffurfio'n llawn |
|---|---|---|---|---|
| a) | | | | ✓ |
| b) | | | | ✓ |

Rheswm dros beidio â chydymffurfio (Rheoliad 55(1)(c) – Rheoliadau 2014):

| |
|---|
| |

Sylwadau ar y sgoriau wedi'u dyfarnu uchod:

Mae'r polisi ar hyfforddiant a threuliau yn cael ei gynnwys ym mholisïau perthnasol yr awdurdod. Mae 'Hyfforddiant Ymddiriedolwyr' CLIL priodol yn cael ei ddarparu ar gyfer pob aelod newydd o Bwyllgor, Bwrdd neu Banel. Mae cynllun hyfforddiant yn cael ei gynnal ar gyfer personél pensiwn allweddol, ynghyd â 'Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau'.
Mae Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau a Chynllun Hyfforddiant ar wahân yn cael eu cynnal ar gyfer aelodau Bwrdd Pensiwn Lleol RhCT.
Mae Cylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol yn amlinellu'r polisi ar ad-dalu treuliau i gynrychiolwyr yr aelodau.

## 6. Rhan II/F Cyfarfodydd

a) Bod prif bwyllgor neu bwyllgorau yr awdurdod gweinyddu yn cyfarfod o leiaf bob chwarter.

b) Bod pwyllgor neu banel eilaidd yr awdurdod gweinyddu yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac mae hyn yn digwydd ar yr un pryd â phan fydd y prif bwyllgor yn cyfarfod.

c) Bod awdurdodau gweinyddu sydd ddim yn cynnwys aelodau lleyg yn eu trefniadau llywodraethu ffurfiol yn darparu fforwm y tu allan i'r trefniadau hynny lle mae modd cynrychioli buddiannau rhanddeiliaid allweddol.

| | Ddim yn cydymffurfio | Yn cydymffurfio'n rhannol | Yn cydymffurfio ar y cyfan | Yn cydymffurfio'n llawn |
|---|---|---|---|---|
| a) | | | | ✓ |
| b) | | | | ✓ |
| c) | | | | ✓ |

Rheswm dros beidio â chydymffurfio (Rheoliad 55(1)(c) – Rheoliadau 2014):

| |
|---|
| |

Sylwadau ar y sgoriau wedi'u dyfarnu uchod:

Caiff Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ei gynnal yn flynyddol (cyfarfod hybrid yn 2022) lle mae modd cyfeirio cwestiynau at aelodau o’r prif bwyllgor,
Mae Fforwm Cyfathrebu yn cael ei gynnal bob chwarter gyda chynrychiolwyr Cyflogwyr y Cynllun (gan gynnwys Cyrff sy'n cael eu derbyn), Undebau ac Aelodau'r Cynllun.
Mae Bwrdd Pensiwn Lleol RhCT yn cynnwys dau swyddog sy'n cynrychioli'r cyflogwyr a dau swyddog sy'n cynrychioli'r aelodau. Mae cynrychiolwyr yr aelodau yn cynrychioli pob categori o aelodau, hynny yw, gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr.
Mae Pwyllgor Pensiwn RhCT yn cyfarfod bob chwarter.
Mae Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiynau Cymru yn cyfarfod o leiaf bob chwarter.
Caiff diwrnodau ymgysylltu eu cynnal rhwng Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Pensiynau Cymru a swyddogion Partneriaeth Pensiynau Cymru ddwywaith y flwyddyn. Mae cofnodion yn cael eu rhannu a'u trafod gyda Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf.

## 7. Rhan II/G Mynediad

a) Bod gyda phob aelod o'r prif bwyllgor a'r pwyllgor eilaidd yr un hawliau o ran mynediad at bapurau, dogfennau a chyngor y pwyllgorau sydd ddim yn cael eu hystyried yng nghyfarfodydd y prif bwyllgor, a hynny yn amodol ar unrhyw reolau yng nghyfansoddiad y Cyngor.

| | Ddim yn cydymffurfio | Yn cydymffurfio'n rhannol | Yn cydymffurfio ar y cyfan | Yn cydymffurfio'n llawn |
|---|---|---|---|---|
| a) | | | | ✓ |

Rheswm dros beidio â chydymffurfio (Rheoliad 55(1)(c) – Rheoliadau 2014):

Sylwadau ar y sgoriau wedi'u dyfarnu uchod:

Mae gyda phob aelod o'r Panel Buddsoddi a Gweinyddu Ymgynghorol yr un hawliau o ran mynediad at yr holl bapurau ar gyfer cyfarfodydd.
Mae cofnodion a dogfennau yn cael eu hanfon at bob 'Cyflogwr' arall sydd ddim yn bresennol.
Mae gyda phob aelod o Fwrdd Pensiwn Lleol RhCT yr un hawliau o ran mynediad at yr holl bapurau ar gyfer cyfarfodydd.
Mae gyda phob aelod o Bwyllgor Pensiwn RhCT yr un hawliau o ran mynediad at yr holl bapurau ar gyfer cyfarfodydd.
Caiff papurau a chofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Cyd-lywodraethu Partneriaeth Pensiynau Cymru eu dosbarthu i Bwyllgor Pensiwn a Bwrdd Pensiwn y Gronfa.

## 8. Rhan II/H Cwmpas

a) Bod awdurdodau gweinyddu wedi cymryd camau i ddod â materion sy'n ymwneud â'r cynllun ehangach o fewn cwmpas eu trefniadau llywodraethu.

| | Ddim yn cydymffurfio | Yn cydymffurfio'n rhannol | Yn cydymffurfio ar y cyfan | Yn cydymffurfio'n llawn |
|---|---|---|---|---|
| a) | | | | ✓ |

Rheswm dros beidio â chydymffurfio (Rheoliad 55(1)(c) – Rheoliadau 2014):

| |
|---|
| |

Sylwadau ar y sgoriau wedi'u dyfarnu uchod:

| |
|---|
| Mae Datganiad Polisi Llywodraethu'r Gronfa Bensiwn yn nodi'r strwythur llywodraethu, sy'n cynnwys Panel Disgresiynau sy'n delio â materion sy'n ymwneud ag arfer disgresiwn. Yn ogystal â hynny, mae Gweithgor y Gronfa Bensiwn yn adolygu materion ehangach y cynllun pensiwn. |

## 9. Rhan II/I – Cyhoeddusrwydd

a) Bod awdurdodau gweinyddu wedi cyhoeddi manylion eu trefniadau llywodraethu yn y fath fodd fel bod modd i randdeiliaid sydd â diddordeb yn y ffordd y caiff y cynllun ei lywodraethu fynegi diddordeb mewn eisiau bod yn rhan o'r trefniadau hynny.

| | Ddim yn cydymffurfio | Yn cydymffurfio'n rhannol | Yn cydymffurfio ar y cyfan | Yn cydymffurfio'n llawn |
|---|---|---|---|---|
| a) | | | | ✓ |

Rheswm dros beidio â chydymffurfio (Rheoliad 55(1)(c) – Rheoliadau 2014):

| |
|---|
| |

Sylwadau ar y sgoriau wedi'u dyfarnu uchod:

| |
|---|
| Mae Datganiad Polisi Llywodraethu'r Gronfa Bensiwn ar wefan y Gronfa neu mae modd ei ddarparu ar ffurf copi caled o ofyn amdano. Mae rhanddeiliaid yn cael eu gwahodd yn ffurfiol i gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Fforwm Cyfathrebu.<br>Mae gyda'r Bwrdd Pensiwn Lleol ddau swyddog sy'n cynrychioli'r aelodau ym mhob categori, hynny yw, gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr.<br>Mae cynrychiolaeth a chofnodion y Pwyllgor Pensiwn wedi'u cyhoeddi ar wefan RhCT.<br>Mae cynrychiolaeth a chofnodion y Bwrdd Pensiwn wedi'u cyhoeddi ar wefan Cronfa RhCT.<br>Mae cofnodion Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiynau Cymru a dogfennau llywodraethu perthnasol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Cymru yr awdurdod arweiniol. |